**Adroddiad I'r:** **Cyngor Sir**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **9fed Hydref 2012**

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** **Cyng. Barbara Smith, Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Pherfformiad / Alan Smith, Pennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad**

**Awdur yr Adroddiad:** **Tony Ward, Rheolwr Tîm Gwella Corfforaethol**

**Teitl: Adolygiad Perfformiad Blynyddol Cyngor Sir Ddinbych: 2011-12**

---

## 1. Ynglŷn â beth mae'r adroddiad?

Mae'n ofynnol i'r cyngor gyhoeddi adroddiad blynyddol am ei berfformiad erbyn 31ain Hydref bob blwyddyn. Mae a wnelo'r adroddiad hwn ag Adroddiad Perfformiad Blynyddol drafft y cyngor ar gyfer 2011-12.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

Mae angen penderfyniad i gymeradwyo'r drafft o Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2011-12, sydd ynghlwm yn Atodiad I i'r adroddiad hwn.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Argymhellir, yn amodol ar unrhyw newidiadau a gytunir, fod yr Aelodau'n cymeradwyo'r drafft o Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2011-12 fel bod modd ei gyfieithu a'i gyhoeddi erbyn 31ain Hydref 2012.

## 4. Manylion yr adroddiad.

Fe wnaeth Cynllun Corfforaethol 2009-12 y cyngor osod y cyfeiriad strategol i'r awdurdod, ac fe'i cytunwyd ym mis Gorffennaf 2009. Fe wnaeth y cyngor gyhoeddi Dogfen Cyflenwi Cynllun Corfforaethol flynyddol ar gyfer 2011-12 hefyd i amlinellu sut oedd yn bwriadu cyfrannu at gyflenwi ei Gynllun Corfforaethol yn ystod y flwyddyn ariannol honno. Yn ogystal, fe wnaeth pob un o wasanaethau'r cyngor gynhyrchu cynllun gwasanaeth ar gyfer 2011-12 i ddisgrifio sut oedd yn bwriadu cyfrannu at gyflenwi canlyniadau a gytunwyd ar gyfer cymunedau Sir Ddinbych. Mae'r adroddiad perfformiad blynyddol yn rhoi gwerthusiad ôl-weithredol o lwyddiant y cyngor yn cyflawni yn erbyn y cynlluniau hyn yn ystod 2011-12, ac felly o ba un a yw'r cyngor wedi llwyddo i gyflawni ei ymrwymiad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus.

## 5. Sut y mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r Adolygiad Perfformiad Blynyddol yn cynnwys gwerthusiad penodol o'n llwyddiant wrth gyflawni ein blaenoriaethau corfforaethol. Mae nid yn unig yn gwerthuso ein perfformiad mewn perthynas â dangosyddion a mesurau perfformiad allweddol y cyngor, ond mae hefyd yn dangos sut y mae'r blaenoriaethau corfforaethol wedi cael effaith yn lleol o fewn chwe ardal Sir Ddinbych.

## 6. Beth fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Yr unig gostau sy'n gysylltiedig â'r adroddiad hwn yw'r rheini'n ymwneud ag argraffu'r adroddiad i drefnu ei fod ar gael yn nerbynfeydd y cyngor, llyfrgelloedd, siopau un alwad, ayb.  Bydd hyn yn cael ei wneud yn fewnol, gyda'r costau'n cael eu cwrdd gan Gynllunio Busnes a Pherfformiad.

## 7. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal ac a oes Sgrinio Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i wneud?

Mae'r Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2011-12 wedi'i ddatblygu gan y Tîm Gwella Corfforaethol, ar ôl ymgynghori â gwasanaethau eraill y cyngor.  Mae'r wybodaeth am berfformiad a gynhwysir yn y ddogfen wedi'i darparu gan wasanaethau, ac mae wedi'i thynnu o system rheoli perfformiad Ffynnon.  Mae'r ddogfen ddrafft wedi'i thrafod gan y Tîm Gweithredol Corfforaethol a'i chylchlythyru i'r Uwch Dîm Arwain am sylwadau.  Mae ymgynghori wedi digwydd hefyd gyda Swyddfa Archwilio Cymru, a ddarparodd adborth cychwynnol ar ba un a oedd yr adroddiad yn debygol o alluogi'r cyngor i gwrdd â gofynion statudol Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Nid oes Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i wneud ar yr adroddiad hwn, gan ei fod yn werthusiad ôl-weithredol o berfformiad, ac felly nid oes gan y penderfyniad i gymeradwyo'r adroddiad ddim effaith bosibl ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig.

## 8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nid oes dim goblygiadau ariannol arwyddocaol yn codi o'r adroddiad.

## 9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Byddai peidio â chynhyrchu'r Adolygiad Blynyddol erbyn y terfyn amser, sef 31ain Hydref, yn debygol o arwain at argymhellion statudol gan Swyddfa Archwilio Cymru, gyda goblygiadau arwyddocaol i enw da'r Cyngor.

## 10. Grym i wneud y Penderfyniad

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn elfen allweddol o Raglen Cymru ar gyfer Gwella (2010), sydd wedi'i thanategu gan ofynion statudol Deddf Llywodraeth Leol 1999 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.